# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 11 GORFFENNAF 2016 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | D W Cole | S E Crouch |
| E W Fitzgerald | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | J W Jones | E J King |
| D J Lewis | P M Meara | G J Tanner |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | C A Holley | P R Hood-Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, U C Clay, N J Davies, a C R Evans
Aelodau Cyfetholedig(wyr): F M Gordon

### 24 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 25 GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

### 26 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.

### 27 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Nododd y Cadeirydd fod cwestiynau wedi'u cyflwyno'n ysgrifenedig gan Mr David Grimsell, ar ran Cyfeillion Ceffylau Abertawe, ar gyfer y Cynghorydd M C Child, Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach. Roedd y cwestiynau'n gysylltiedig â chyfarfod diweddar y Gweithgor Craffu Ceffylau Wedi'u Clymu. Nodwyd bod Mr Grimsell yn pryderu am nifer y ceffylau a gedwir ar fannau cyhoeddus, yn enwedig tir

y cyngor, heb ganiatâd, gyda llawer wedi'u clymu ac yn dioddef lles gwael. Ar y cyd â'r cwestiynau, bu sylwadau am nifer y ceffylau y bu'n rhaid i'r cyngor eu cipio, eu ffaldio a'u difa, a chwynion a wnaed i'r cyngor am broblemau lles a rheoli ceffylau. Darllenodd y Cadeirydd y cwestiynau a ofynnwyd i Aelod y Cabinet, sef:

- Sut gall y cyngor feiddio gwneud dim byd a pharhau ag ymagwedd ymatebol sydd wedi profi'n hollol aneffeithiol o ran mynd i'r afael ag anghenion y ceffylau a phryderon y gymuned, gan ganiatáu i'r problemau hyn barhau flwyddyn ar ôl blwyddyn heb newid?
- Sut gellir meiddio diystyru argymhellion y 'Gweithgor Ceffylau wedi'u Clymu' i wneud newidiadau sylfaenol?

Ymatebodd y Cyng. M C Child, Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach, ar lafar, gan awgrymu y byddai ateb ysgrifenedig llawn yn cael ei anfon at Mr Grimsell, ynghyd ag aelodau'r pwyllgor.

Rhoddodd beth sicrwydd i'r pwyllgor ei fod yn awyddus i gwrdd â'r holl grwpiau â diddordeb er mwyn gwneud cynnydd, ond tynnodd sylw at y pwysau ariannol ar y gwasanaeth, a all effeithio ar fuddsoddiad posib i fynd i'r afael â'r broblem hon. Cyfeiriodd y Cyng. Child at y ffaith bod gweithio mewn partneriaeth gwell eisoes wedi arwain at ostyngiad mawr yn nifer y ceffylau strae y bu'n rhaid eu difa.

28 **<u>SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS LES A DINAS IACH. (Y CYNGHORYDD MARK CHILD).</u>**

Cyflwynodd y Cynghorydd Child sylwadau agoriadol a gwybodaeth am ei bortffolio Cabinet, cyn cymryd cwestiynau gan y pwyllgor.

Rhoddodd ddiweddariad llafar i'w gyflwyniad ysgrifenedig a amlinellwyd yn yr adroddiad am y meysydd canlynol yn ei bortffolio:

- Cydlynwyr Ardaloedd Lleol – darpariaeth a chynnydd/gwerthusiad
- Cynllun 'ParkLives' – annog pobl i ddefnyddio parciau a chymryd rhan mewn gweithgareddau
- Meysydd 3G – cyflwyno dau faes pob tywydd newydd
- Canclwm Japan – incwm a grëwyd
- Polisi Coed – cyfraniad y Gweithgor Craffu sy'n ystyried cadw coed a'r angen i ddatblygu polisi
- Cynllun Dechrau Gorau mewn Bywyd
- Ceffylau wedi'u Clymu

Yna cafodd gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor ar y meysydd hyn a phynciau eraill, gan gynnwys y canlynol:

- Defnydd o deledu cylch cyfyng – adolygu'r gwasanaeth
- Partneriaeth Dinas Iach – gweithgareddau a chyflawniadau
- Tai Amlfeddiannaeth – effaith campws newydd y brifysgol ar ddwyrain Abertawe
- Clybiau a Lawntiau Bowls – cynnal a chadw lawntiau segur
- Trosglwyddo Asedau/Adeiladau i Grwpiau Cymunedol/Cronfeydd Pontio
- Rhesymeg y cyngor dros godi tâl am ddigwyddiadau "Cyfeillion Parciau"

- Strategaeth Mannau Agored – cynhaliwyd arolwg i ddylanwadu ar benderfyniadau ar ddatblygiadau'r dyfodol
- Datblygu Canol y Ddinas – pwysleisio dyluniad adeiladau a mannau trefol er mwyn sicrhau mynediad iach/diogel i'r cyhoedd
- Gwirfoddolwyr a Grwpiau Cymunedol – y cyngor a'r gefnogaeth a roddwyd
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – cyfrifoldebau'r portffolio
- Cyllid ar gyfer Clybiau/Grwpiau Chwaraeon Cymunedol
- Heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod

Awgrymodd y byddai'n ymateb yn ysgrifenedig i'r pwyllgor gyda gwybodaeth am nifer o'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan fyfyrio ar y drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 29 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2015/16.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol y Tîm Craffu 2015/16 er mwyn cytuno arno.

Diben yr adroddiad oedd:

- Tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Tîm Craffu
- Dangos sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth
- Cefnogi gwelliant parhaus y swyddogaeth graffu.

Am y bumed flwyddyn, llunnir yr adroddiad fel cerdyn sgorio syml. Bwriedir i'r ymagwedd hon dynnu sylw at nifer bach o ddangosyddion allweddol sy'n dangos pedwar cwestiwn o ran perfformiad. Gweler y cwestiynau hyn, y bwriedir iddynt adlewyrchu ymagwedd 'sy'n seiliedig ar ganlyniadau' fel a ganlyn:

- Beth oedd effaith craffu?
- Pa mor dda gwnaethom ni?
- Faint wnaeth craffu effeithio ar fusnes y cyngor?
- Faint o graffu wnaethom ni?

Mae siartiau wedi'u hychwanegu sy'n dangos data cymharol â blynyddoedd blaenorol lle bo hynny ar gael ac mae saethau wedi'u hychwanegu at y prif gerdyn sgorio er mwyn dangos cyfeiriad y newid ar gyfer pob mesur.

Os ceir cytundeb, byddai'r adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r cyngor ar 28 Gorffennaf 2016.

**PENDERFYNWYD CYTUNO** ar yr adroddiad a'i gyflwyno i'r cyngor, yn amodol ar ychwanegu nodyn i ddiolch i'r staff sy'n cefnogi'r broses graffu yn rhagair y Cadeirydd.

30 **ADRODDIAD AR GYNNYDD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU - GWELLA GWASANAETHAU A CHYLLID. (Y CYNGHORYDD CHRIS HOLLEY, CYNULLYDD)**

Rhoddodd C A Holley, y Cynullydd, y newyddion diweddaraf am waith y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y canlynol:

- Y materion allweddol a drafodwyd gan y panel
- Yr ymarfer craffu cyn penderfynu a gynhaliwyd o ran yr Adolygiad Comisiynu Rheoli Gwastraff
- Pynciau i'w hadolygu yn y dyfodol - cynllun corfforaethol, mwy o graffu cyn penderfynu ar adolygiadau comisiynu, ffïoedd a thaliadau a chyllideb.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei **NODI.**

31 **RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y rhaglen waith arfaethedig, gan gynnwys cynllun ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol, a oedd yn dangos y pynciau a fyddai'n cael eu harchwilio gan graffu trwy baneli a gweithgorau amrywiol.

Cyfeiriodd at yr wybodaeth am gynlluniau gwaith Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet (PCC) a oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a helpu i osgoi dyblygu. Nododd yr aelodau gyfraniad PCC at 'Drechu Tlodi' a 'Chytundebau Adran 106'; fodd bynnag, fe'u bodlonwyd na fyddai'r gwaith craffu arfaethedig ar y materion hyn yn achosi unrhyw ddyblygu diangen.

**Penderfynwyd** nodi'r rhaglen waith craffu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

32 **AELODAETH PANELI A GWEITHGORAU CRAFFU.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i Aelodaeth Paneli/Gweithgorau Craffu.

Adroddwyd bod y Cynghorydd U C Clay wedi'i phenodi'n Gynullydd Panel Perfformiad Craffu Gwasanaethau i Oedolion, felly caiff ei hychwanegu at aelodaeth Panel Perfformiad Craffu Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus, ac y bydd y Cynghorydd C L Philpott yn ailymuno â'r Panel Perfformiad Ysgolion.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** penodiadau uchod.

33 **LLYTHYRAU CRAFFU.**

Adroddodd y Cadeirydd y Cofnod Llythyrau Craffu a chyfeiriodd at yr ohebiaeth ddiweddar rhwng aelodau'r Tîm Craffu ac Aelodau'r Cabinet. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau gan y Gweithgor Ceffylau wedi'u Clymu i Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach a'r ymateb dilynol.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 34 ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Seremoni Genedlaethol Gwobrwyo Cyflawniad y Municipal Journal ar 16 Mehefin 2016 yr oedd hi, y Cynghorydd T J Hennegan a'r Cynghorydd P R Hood-Willians wedi mynd iddi. Drwy waith Craffu Abertawe, roedd yr awdurdod wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categori Rhagoriaeth mewn Llywodraethu a Chraffu. Er nad enillwyd y wobr, roedd yr aelodau'n cydnabod y cyflawniad o fod ar y rhestr fer o bum cyngor o bob rhan o'r DU.

Rhoddodd y Cynghorwyr C A Holley a P Hood-Williams adborth hefyd ar seminar a drefnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef 'Dyfodol Llywodraethu: Gwneud Penderfyniadau ar gyfer Cenedlaethau'r Presennol a'r Dyfodol'. Fe’i cynhaliwyd ar 6 Gorffennaf yng Nghaerdydd, a chanolbwyntiodd ar oblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran cynnal, cyflwyno a galw gwasanaethau i gyfrif, a'r sgiliau a'r ymddygiad angenrheidiol.

## 35 DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Gweithdy Ymwybyddiaeth o Dlodi a gynhelir am 4pm ddydd Llun, 25 Gorffennaf 2016 yn y Ganolfan Ddinesig. Roedd y gweithdy'n agored i bob cynghorydd, ond fe'i trefnwyd yn bennaf er mwyn darparu gwybodaeth gefndir am y materion i'r Panel Ymchwiliad Craffu Trechu Tlodi cyn y cesglir tystiolaeth.

## 36 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

**PENDERFYNWYD NODI** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 37 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR YN Y DYFODOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM ONI NODIR YN WAHANOL):

**NODWYD** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

## 38 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU

Er gwybodaeth, darparwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.57 pm

**CADEIRYDD**